**Eitem ar yr agenda:  11**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**15 RHAGFYR 2003**

**Y GWELLIANNAU ARFAETHEDIG I'R RHEOLAU SEFYDLOG**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Y gwelliannau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Tân yn ei gyfarfod ar 29 Medi.

**Cefndir**

2 I gyd-fynd â phenderfyniad yr Awdurdod Tân, mae'r gwelliannau'n darparu ar gyfer adrodd ynghylch cofnodion y cyfarfod blynyddol a'u cymeradwyo yn y cyfarfod blynyddol nesaf.

3 Dan reol sefydlog 2(2), bydd unrhyw welliant i'r rheolau sefydlog sy'n cael ei gynnig a'i eilio yn cael ei ohirio hyd y cyfarfod nesaf o'r awdurdod. Felly, ni fydd y gwelliannau'n agored i drafodaeth a phleidlais tan y cyfarfod ym mis Mawrth.

**Argymhelliad**

4 Nodi'r gwelliannau sydd yn yr atodiad (os cânt eu cynnig a'u heilio).

**Atodiad/Annex**

| **Rheol sefydlog Standing order** | **Rheswm am y gwelliant a gynigir Reason for proposed amendment** | **Proposed amendment (English version)** | **Gwelliant a gynigir (fersiwn Cymraeg)** |
|---|---|---|---|
| 8(1) | Sicrhau bod cofnodion y cyfarfod blynyddol yn cael eu mabwysiadu gan y cyfarfod blynyddol nesaf<br><br>Ensuring that the minutes of the annual meeting are adopted by the next annual meeting | After sub-paragraph (c), insert:<br>"( ) at the annual meeting, to approve as a correct record the minutes of the previous annual meeting of the authority and for the person presiding to sign them;" | Ar ôl is-baragraff (c), mewnosod:<br>"( ) yn y cyfarfod blynyddol, cymeradwyo fel rhai cywir gofnodion cyfarfod blynyddol blaenorol yr awdurdod ac i'r sawl sy'n llywyddu eu llofnodi;" |
| 8(1)(ch) | Ditto | Insert before "meeting" on both occasions "ordinary or extraordinary" | Mewnosod ar ôl "cyfarfod" ar y ddau achlysur "cyffredin neu arbennig" |
| 18(1) | Ditto | After "paragraph (2)" insert "and (2A)" | Ar ôl "paragraff (2)" mewnosod "a (2A)" |

*trosodd.../over...*

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 | Ditto | After paragraph (2), insert:<br>“(2A) In relation to the annual meeting of the authority, the next annual meeting of the authority shall be the next suitable meeting for the purpose of paragraph (1).” | Ar ôl paragraff (2), mewnosod:<br>“(2A) Mewn perthynas â chyfarfod blynyddol yr awdurdod, cyfarfod blynyddol nesaf yr awdurdod fydd y cyfarfod addas nesaf at bwrpas paragraff (1).” |
| 18(3) | Cywiro gwall drafftio<br><br>Correction of a drafting error | Substitute “of that meeting” for “to that meeting”. | Dim newid |